

GWYBODAETH GYFFREDINOL – CYFLENWADAU DŴR PREIFAT

Mae cyflenwad dŵr preifat yn un nad yw'n cael ei ddarparu gan gwmni dŵr. Maent i'w cael yn bennaf yn rhannau mwy gwledig y Fwrdeistref Sirol. Gall eu ffynhonnell fod yn dwll turio, ffynnon, tardell, nant, afon, llyn neu bwl. Gall y man cyflenwi unigol, wasanaethu un eiddo neu amryw ohonynt.

Adnabyddir y math arall o gyflenwad dŵr preifat yn gyffredinol fel 'dosbarthiad pellach' neu 'rhwydwaith dosbarthu preifat'. Yn y sefyllfa hon, bydd dŵr yn cael ei werthu gan gwmni dŵr i unigolyn sydd yna'n dosbarthu'r dŵr drwy eu rhwydwaith o bibelli eu hunain, i adeiladau eraill nad ydynt yn berchen arnynt, gyda'r gost i'r defnyddiwr fel rheol.

Y perchennog neu'r perchnogion sydd â'r cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r ddau fath o Gyflenwad Preifat. Weithiau bydd hyn wedi ei gytuno'n ffurfiol, ac mewn sefyllfaoedd eraill, efallai mai trefniant anffurfiol sy'n bodoli.

PAM NA ELLIR DEFNYDDIO CYFLENWADAU DŴR PREIFAT

Fel rheol, y rheswm na ellir bellach defnyddio cyflenwad dŵr preifat fyddai un o'r canlynol:

- 1) Mae'r cyflenwad wedi sychu, fwyaf tebyg pan fydd sychder. Os bydd rhywun arall wedi ymyrryd â'r cyflenwad, neu fod mwy o alw am y dŵr megis eiddo ychwanegol, efallai nad yw'r cyflenwad bellach yn gallu ymdopi gyda'r galw.
- 2) Mae'r dŵr wedi rhewi yn y pibelli. Mewn rhwydwaith sydd wedi ei osod yn gywir, ni ddylai hyn ddigwydd gan fod cyngor am ddyfnder pibelli a lagin i'w gael yn rhwydd.
- 3) Mae'r dŵr mor afiach fel ei fod yn berygl i iechyd defnyddwyr.

Sylwer: Heb orchymyn llys neu gytundeb sydd eisoes yn bodoli (e.e. gweithredoedd), mae'n anghyfreithlon i unrhyw un dorri eich cyflenwad dŵr yn fwriadol.

PARATOI AR GYFER COLLI CYFLENWAD DŴR

Oherwydd i'r cyfrifoldeb am y cyflenwad aros ar ysgwyddau'r perchennog, argymhellir bod cynllun brys yn cael ei lunio, felly pe byddai dim dŵr, y gellir cymryd camau priodol yn ddi-oed. Dylech ystyried y canlynol i ddechrau:

- 1) A oes modd i chi gael cyflenwad dŵr arall? Yn gyffredinol bydd pob unigolyn yn defnyddio 150 litr o ddŵr y diwrnod (Cyngor Defnyddwyr Dŵr). Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar bob agwedd o ddefnyddio dŵr o yfed i olchi dillad.
- 2) Dylid ystyried yn ofalus iachusrwydd unrhyw gyflenwad arall. Ystyriwch bwyntiau megis: o le ddaw'r dŵr, oes angen ei drin, oes digon o ddŵr ar gael.
- 3) Mewn argyfwng, mae'n bosibl defnyddio llawer llai o ddŵr am ychydig ddyddiau, ac efallai ei bod yn bosibl defnyddio dŵr potel yn y tymor byr.
- 4) Dylid cynllunio ar gyfer dim cyflenwad dŵr, a'r achosion posib. Er enghraifft, os mai ychydig o ddŵr fydd y ffynhonnell yn ei gynhyrchu, gellid defnyddio tanc dŵr sy'n ail-lenwi pan fydd llai o alw am ddŵr.
- 5) Dylid gwneud rhestr o gwmnïau all ddarparu cyflenwad hirdymor dros dro, er mwyn lleihau'r oedi rhwng dim cyflenwad dŵr, a chyflenwad arall dros dro. Byddai hefyd yn ddoeth ystyried cost hyn. Gellir gweld manylion cwmnïau o'r fath ar y rhyngwyd.

Sylwer: Nid oes dyletswydd gyfreithiol i unrhyw un ddarparu cyflenwad dŵr arall i chi os na cheir cyflenwad dŵr preifat. Mae'r sefyllfa'n wahanol os byddwch chi'n talu i rywun am ddŵr o gyflenwad preifat, yn wahanol i unrhyw gytundeb i'r gwrthwyneb; os byddwch yn talu am eich dŵr, mae gennych hawl i ddisgwyl cyflenwad iachus sy'n ddigon ar gyfer eich anghenion.

A ALL Y CWMNI DŴR FY HELPU?

Gwasanaethir Wrecsam gan dri chwmni dŵr:

- Hafren Dyfrdwy - Rhif Cyswllt Brys 0800 085 8033
- United Utilities - Rhif Cyswllt Brys 0345 672 3723

Bydd Hafren Dyfrdwy yn cyflenwi bron iawn holl ddefnyddwyr dŵr y prif gyflenwad yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae Hafren Dyfrdwy wedi nodi y byddant yn ceisio darparu dŵr i ddefnyddwyr Cyflenwadau Dŵr Preifat pe na ellir defnyddio'r cyflenwad preifat. Perchennog y Cyflenwad Dŵr Preifat fydd yn talu cost hwnnw. Gall eu cymorth amrywio o ddarparu dŵr potel i ddarparu tancer dŵr, a bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl eu teilyngdod. Mae sawl amod / cyfyngiad yn hyn o beth, hynny yw cyflenwadau brys / offer diangen gan gwsmeriaid, y mae dyletswydd arnynt i ddarparu dŵr iddynt. Byddant hefyd yn gweithredu system flaenoriaethol, a'r defnyddwyr mwyaf diamddiffyn fydd yn derbyn y cymorth yn gyntaf.

Ceir hefyd gwmnïau masnachol eraill a fyddai'n darparu gwasanaeth tebyg i chi; gellir gweld manylion cwmnïau o'r fath ar y rhyngwyd.

I gael rhagor o gyngor ar Gyflenwadau Dŵr Preifat, cysylltwch ag Adran yr Amgylchedd a Chynllunio:

Rhif Ffôn: 01978 292040
E-bost: contact-us@wrexham.gov.uk

Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael ar y rhyngwyd yn:
http://www.wrexham.gov.uk/welsh/env_services/environmental_protection/private_water.htm